

ADRODDIAD AR GYNIGION Y GYLLIDEB CYNGOR TREF LLANBEDR PS AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL YN CYCHWYN AR Y 1AF EBRILL 2018 AC YN GORFFEN AR YR 31AIN MAWRTH 2019

1. AMODAU GORCHWYL

Er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gofynnwyd i'r Clerc, fel y Swyddog Ariannol, i amcangyfrif gwariant y flwyddyn nesaf ac i wneud argymhellion priodol. Galluoga hyn i Gynghorwyr benderfynu ar lefel y Praesept 2018-19. Cyflwynir yr Adroddiad gerbron y Cyngor Tref erbyn yr 11eg o Ionawr.

RHAGARWEINIAD-GWYBODAETH GEFNDIROL

Beth yw'r "Praesept"?

Ffurfir y Praesept ran o'r Dreth Gyngor.

Math o drethiant lleol yw Treth y Cyngor, yn seiliedig ar feddiannaeth a pherchenogaeth eiddo domestig, a godir gan gynghorau lleol.

Cyfrifir y cyfanswm o'r hyn sydd ei angen ar Gyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys a'r Cynghorau Tref a Chymuned (y Praesept). Defnyddir yr arian a gesglir, gan fwy na 30,000 o gartrefi, ynghyd â grantiau'r Llywodraeth, i ddarparu ystod eang o wasanaethau. Gosododd y Cyngor Sir ei gyllideb ar gyfer 2017-2018 fel £135.2 miliwn ac fel canlyniad gwelwyd cynnydd o Dreth Gyngor y Cyngor Sir o 4.0%. Cynyddodd y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy i'r Cyngor Sir 0.9% o'i gymharu â 2016-2017 ar ôl caniatáu trosglwyddiad grant i'r setliad.

Gwelwyd cynnydd yn y Dreth Gyngor a gasglwyd gan Heddlu Dyfed-Powys o 6.9% ym 2017-18 a chynnydd o 1.04% (cyfartaledd) ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Ar y cyfan, cynyddodd bil Treth y Cyngor ar gyfer eiddo band D, 4.36% ym 2017-18. Gosodir Asesiad Gwariant Safonol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorau Sir bob blwyddyn. Dyma'r ffigur, y mae'r Llywodraeth wedi'i asesu fel y swm sy'n ofynnol i ddarparu lefel safonol o wasanaeth yn yr ardal honno. £134.2 miliwn oedd Asesiad Gwariant Safonol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2017-2018. Cynlluniwyd rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gwerth £14m ar gyfer 2017-2018.

Darperir Cyngor Sir Ceredigion nifer o wasanaethau gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llyfrgelloedd, cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd, rheoli adeiladu, cynllunio a datblygiad economaidd, parcio a theithio, teithio rhatach, cludiant i deithwyr, mynwentydd, safonau masnach, rheoli gwastraff, tai cyngor, cymorth digartrefedd, canolfannau hamdden, parciau, meysydd chwarae, meysydd parcio, marchnadoedd, budd-dal tai, iechyd a diogelwch, hylendid bwyd, canolfannau gwybodaeth, rheoli pla a gwasanaethau cysylltiedig eraill. Hawlir y Dreth Gyngor, sy'n seiliedig 50% ar eiddo a 50% ar amgylchiadau personol ar bob cartref a fflat o fewn ffiniau'r awdurdod, ar y dybiaeth bod 2 oedolyn yn preswyo ymhob eiddo. Fodd bynnag, os mai ond un oedolyn sy'n byw o fewn yr eiddo, efallai bydd gostyngiad o 25% ar gynnig. Er y gellir talu Treth y Cyngor hefyd ar eiddo gwag, gall rai eithriadau fod yn berthnasol.

Cynrychiola'r Praesept y Cyngor Tref cyfran fechan cyfanswm y Dreth Gyngor a gasglwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn flynyddol. Er enghraifft, ar gyfer y flwyddyn 2017-18, gellir rhannu'r cyfanswm cyfwerth â **Band D** (canolbris) sef tâl o **£1,425.90** ar gyfer Trethdalwr Cyngor yn Llanbedr PS, a ganlyn:

	£	%	Yr wythnos (oddeutu)
Cyngor Sir Ceredigion	1,168.81	81.97	£22.48
Heddlu Dyfed-Powys	213.63	14.98	£ 4.11
Cyngor Dref Llanbedr PS	43.46	3.05	£0.84
CYFANSWM	£ 1,425.90		

Seilir y tâl ar gyfer pob cartref ar Fand Treth y Cyngor y disgynna'r eiddo; y mae'r manylion wedi eu dyfynnu isod. Ar ben isaf, y mae hyn yn cyfateb, yn ystod 2017-18 yn Llanbedr Pont Steffan, at swm wythnosol o £0.56 a phen uchaf o £1.94 yr wythnos.

GWERTH Y PRAESEPT YN ÔL Y BAND Y YSTOD Y FLWYDDYN 2017-18								
A	B	C	D	E	F	G	H	I
£28.93	£33.76	£38.53	£43.46	£53.03	£62.14	£72.30	£86.80	£101.12

BETH YW ASED AU SEFYDLOG Y CYNGOR TREF?

Rhestrir Asedau Sefydlog y Cyngor Tref o fewn **Atodiad 3**.

PRAESEPT YR HEDDLU

Ym mis Tachwedd 2017, lansiodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllid yr heddlu ar gyfer 2018/19. Ariennir plismona lleol gan gyllideb Swyddfa Gartref, yn ogystal â chyfraniadau y cyhoedd dan law'r Dreth Gyngor, sef Praesept yr Heddlu. Wrth lansio'r ymgynghoriad ar gyfer praesept yr heddlu 2018/19, dywedodd Dafydd Llywelyn: "Fel y nodwyd yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddau, cynyddodd y Praesept ar gyfer 2017/18, 6.9% ac yn cyfateb i daliad eiddo Band D o £213.87 y flwyddyn, sef yr isaf o'r 4 ardal heddlu yng Nghymru.

Yn fy nghynllun, gwelwyd hefyd, gynnydd o 5% y flwyddyn yn y blynyddoedd sydd i ddilyn. Golygir hyn taliad o £224.56 ar Eiddo Band D ym 2018/19, cynnydd o £10.69 am y flwyddyn neu 21c yr wythnos. Mae penderfyniadau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at lai o arian ar gael i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau, a chyda'r bygythiadau parhaus o doriadau gan y llywodraeth ganolog, credaf yn ddiymdroi y dylai'r cyhoedd leiso barn cryf parthed y penderfyniad o wneud newidiadau i gyfraniad y cyhoedd dan law'r Dreth Gyngor ac, unwaith y cytunwyd, eglurir yn fanwl yr effaith ar blismona."

Ymdrecha'r adroddiad hwn gyfrifo'r arian angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a hefyd bydd yn ymroi i ddarparu gwerth am arian, ar gyfer y Treth-Dalwr Cyngor, Llanbedr PS.

2. Y DREFN

Er mwyn casglu gwybodaeth perthnasol, gosodwyd y gweithdrefnau canlynol mewn lle:

- 2.1** Adolygwyd Praesept y flwyddyn gyfredol (1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth, 2018);
- 2.2** Clustnodwyd sylw i'r arbedion yn ymwneud â'r Camerau Teledu Cylch Cyfyng (CTCC).
- 2.3** Cyfrifwyd incwm a gwariant y flwyddyn bresennol (1 Ebrill- 31 Mawrth 2018) a'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhagfynegwyd gwariant dyfodol.
- 2.4** Ystyriwyd cyllideb Prosiect Cae Maesyderi.
- 2.5** Cyfrifwyd y swm a ragwelir yng nghronfeydd wrth gefn y Cyfrifon Banc ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, hy 31 Mawrth, 2018.
- 2.6** Arfarnwyd rhoddion i elusennau yng ngoleuni'r fformiwla a luniwyd yn Chwefror 2015.
- 2.7** Ystyriwyd costau parhaus/dyfodol.
- 2.8** Daethpwyd i gasgliadau a cynigiwyd opsiynau o ran y swm a godir dan law'r

Praesept (2018-19) .

2.9 Gwnaethpwyd argymhellion priodol.

3. CANFYDDIADAU

3.1 ADOLYGIAD O'R PRAESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN GYFREDOL (1 Ebrill 2017 –31 Mawrth 2018)

Praesept o £41,000 oedd yn bodoli yn ystod y flwyddyn ariannol hon (y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2018), yr un fath â'r 5 mlynedd ddiwethaf.

Cynrychiola hyn gostyngiad o £2,220, o'i gymharu â'r flwyddyn 2012-13. Meddylid yn ystod y Cyfarfod Cyllideb Ionawr 2013 y gellid cynnig gostyngiad, i adlewyrchu'r Taliad CTCC blynyddol ar y pryd, (o £12,000 i £7,500 = £1,250 y camera - 6 o gamerâu). Gwelwyd cysondeb yn ffigur y Praesept yn ystod yr 8 mlynedd blaenorol sef £43,220; roedd hyn wedi cynrychioli gostyngiad yn nhermau real o ystyried chwyddiant .

3.2 Y SYSTEM CAMERAU TELEDU CYLCH CYFYNG (CTCC)

Cyflwynwyd y system camerau teledu cylch cyfyng Llambled ym mis Ebrill 2002 a'r cyfraniad blynyddol ar gyfer y Cyngor Tref hyd at yr 8 Ionawr, 2008 oedd £19,600 (ac eithrio TAW), a dalwyd i MLL Telecom Cyf. Ffurfiodd y swm o £19,600 cyfran sylweddol o'r Praesept ac o ganlyniad, roedd Praesept y Cyngor Tref wedi ei rhestru'n un o'r uchaf yn y sir. O'r 9fed mis Ionawr 2008, cafodd y ffi flynyddol ei lleihau i £12,000 gan yr uwchraddiwyd y System CTCC. Serch hynny, nid oedd y lleihad yn y gost CCTC wedi ei adlewyrchu mewn gostyngiad ym mhraesept y Cyngor Tref.

Dilewyd y 6 Camera TCC yn Llambled gan Gyngor Sir Ceredigion ar y 1 Ebrill 2014 oherwydd toriadau cyllidebol. Fel canlyniad, ni ddefnyddiwyd £7,500 a glustnodwyd ar gyfer y cyfleuster hwn, gan y Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 i gwrdd â'r gost ddisgwyledig. Ni welwyd gostyngiad yn y Praesept 2015-16 o £41,000 er nad oedd y Camerau TCC ar gynnig bellach.

Mae'r arbedion hyn wedi galluogi'r Cyngor Tref i gwrdd â'i gostau blynyddol arferol, heb gynyddu'r Praesept ar gyfer y treth-dalwr, a hefyd at dwf yn ei gronfeydd wrth gefn.

Mae adolygiad ar y defnydd o GTCC a ariennir yn gyhoeddus ledled hanner Cymru wedi bod yn destun trafodaethau dwys.

Gellid ail-gyflwyno Monitro CTCC ar draws Ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Dafydd Llywelyn, wedi addo buddsoddiad CTCC ac wedi ymrwymo i'w cyflwyno, er mwyn helpu, "cadw ein cymunedau'n ddiogel". Byddai'n ofynnol i gartref Band D sef y Band ar gyfartaledd, dalu 27c yr wythnos, o dan gynlluniau newydd ond cadarnhaodd Ymgynghoriad ar ddiwedd 2016 fod cymunedau'n barod i dalu'n ychwanegol am blismona.

Bydd dadansoddiad o'r galw sy'n deillio o ddata sy'n ymwneud â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn pennu lle bydd CTCC yn weithredol. Ni fydd y sefyllfa yn adfer camerâu ond yn hytrach yn ymwneud ag ymagwedd monitro a chefnogaeth ddigonol, gan alluogi'r CTCC i'w gosod mewn lleoedd ystyrlon. Mae'r tîm sy'n gyfrifol am ystyried yr ardaloedd lle y dylid gweithredu CTCC yn rhwym gan gyfarwyddyd y Comisiynydd Gwylidwriaeth i sicrhau bod yna "grym angen". Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i adfer camerâu teledu cylch cyfyng yn Llanbedr Pont Steffan. Mae Swyddogion Lleol Llanbedr Pont Steffan wedi adrodd bod yr economi gyda'r nos yn dawel yn y dref ac o gwmpas y dref ac felly byddai'n anodd cwrdd â gofynion "grym angen". Mynegodd aelodau'r Cyngor Tref eisoes nad oedd troseddau'r nos, bob amser yn cael eu hadrodd yn Llanbedr Pont Steffan.

3.3 YR INCWM A GWARIANT Y FLWYDDYN BRESENNOL (1 Ebrill 2017-31 Mawrth 2018)

3.3.1 GWARIANT AM Y 12 MIS Y FLWYDDYN ARIANNOL 2017-18 YN SEILIEDIG AR WARIANT GWIRIONEDDOLYN YSTOD YR 9 MIS CYNTAF GAN GYNNWYS TAW

GWARIANT GWIRIONEDDOL O 1 EBRILL i 31 RHAGFYR 2017 (O Lyfr Arian-Parod -cynnwys TAW)	£47,183.79 Cyfeiriwch at Atodiad 1 + 2)
Tynnwch i ffwrdd y gost o Ginio'r Maer (cofnod dwbl)	(£1,254.75 + £10.12)
Tynnwch i ffwrdd y gost o dyfrhau planhigion Haf 2016	£4,200.00
GWARIANT AR GYFER YR 9 MIS CYNTAF (GAN GYNNWYS TAW)	£41,718.92
Tynnwch i ffwrdd TAW	(£3,398.42)
Gwir wariant 1.04.17-13.04.17	£38,320.50
Gwariant a ragwelir AM Y 3 MIS NESAF(heb gynnwys TAW)	12,773.50
CYFANSWM GWARIANT rhagamcanol AM Y FLWYDDYN HEB TAW	£51,094
CYFANSWM GWARIANT TAW AM Y 3 MIS NESAF	£3,398.42/3 =£1,133

Yn ystod y flwyddyn flaenorol (2016-17) y gwariant gwirioneddol oedd £47,628.03 (heb gynnwys TAW) (LLAI £1,266.40 CINIO'R MAER CYFLWYNIAD DWBL) = **£46,361.63**.

Cynhwyswyd Grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned o £8,000 yn y cyfrifiad uchod (2016-17) a £5,928 ar gyfer Goleuadau Nadolig. Talwyd y gost Dyfrhau o £4,200 ar gyfer 2016 ym 2017-2018; pe byddai'r gwariant hwn wedi'i gynnwys mewn ôl-ddyledion ar gyfer flwyddyn ariannol 2016-17, byddai'r gwariant gwirioneddol wedi cynyddu i £50,561.63. Cynyddir taliadau "eithriadol" gwariant y Cyngor Tref yn sylweddol.

3.3.2 INC WM AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL (yn dechrau 1 Ebrill 2017 ac yn diwedd 31 Mawrth 2018)

Praesept ar gyfer y flwyddyn 2017-18 £41,000

Ad-daliad TAW £2,425.45

Llog – Banc Lloyds £702.00

Cinio'r Maer (cyflwyniad-dwbl) £1,254.75 + £10.12 = £1,264.87

Allwedd Parc-yr-Orsedd £5.00

CYFANSWM £45,397.32 (llai £1,264.17 Cinio'r Maer)

£44,133.15 (incwm).

CYFANSWM INCWM LLAI CYFANSWM GWARIANT (gan gynnwys Rhagamcan)

£44,133.15 - £51,094 (heb TAW) = £6, 960, sef gwarged i'w cwrdd o'r arbedion.

3.4 PROSIECT Cae Maesyderi (heb gynnwys TAW)

GWARIANT 2009-10 (blwyddyn y brydleswyd y cae gan Gyngor Sir Ceredigion)	£ 6,536
GWARIANT 2010-11	£ 11,357
GWARIANT 2011-12	£ 1,694
GWARIANT 2012-13	£ 1,715
GWARIANT 2013-14	£ 102
GWARIANT 2014-15	£ 407
GWARIANT 2015-16 Torri Gwair £ 400 Arolwg Parc ROSPA £ 65 Eitem ar gyfer y Ffens £ 4.54	£ 470
GWARIANT 2016-17 Torri Gwair £300 Arolwg Parc ROSPA £66.50	£366.50
GWARIANT 2017-18 Torri Gwair £300 Arolwg Parc ROSPA £66.50	£366.50

£23,014.50 a wariwyd cyn belled ar y prosiect hwn, i gynnal a chadw'r cae fel amwynder ar gyfer trigolion Llambed i gynnwys Grant yr Heddlu o £15,000. Bwriadwyd adeiladu Trac Beic ar y cae; codwyd £910.60 at y diben hwn. Trosglwyddwyd £910.60 i gyfrif ar wahân. Trosglwyddwyd £301 (o'r £910.60) i Gyfrif Cyfredol Banc Lloyds y Cyngor Tref ym 2014; gyda'r bwriad o'i gyflwyno i ddisgyblion Ysgol Bro-Pedr maes o law i gynorthwyo gyda'r gwaith o adeiladu Trac Beic.

Clustnodwyd Cyllideb o £1,500 y flwyddyn ar gyfer y Cae yn ystod Cyfarfod Cyllideb Ionawr 2010.

Nid yw RAY Ceredigion yn cyfarfod bellach ar y cae ar y trydydd Sul y mis ac wedi adleoli i Barc-yr-Orsedd.

Cyfarfu Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi unwaith bob 2/3 mis i drafod materion yn ymwneud â'r Cae..

Parha'r Cae i fod yn Eiddo'r Cyngor Sir Ceredigion.

Gwnaed ymholiadau yn y gorffennol gerbron y Cyngor Sir i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Tref i brynu'r cae ond aflwyddiannus bu ymdrechion cyn belled. Mae'r ffens £9,018 gan gynnwys TAW a brynwyd ym 2010 gan Gyngor y Dref bellach yn eiddo i GS Ceredigion ac ni chaiff ei gynnwys yng Nghofrestr Asedau Sefydlog y Cyngor Tref.

3.5 Y SWM rhagamcanol CRONFEYDD WRTH GEFN AR DDIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL (yn dechrau 1 Ebrill 2017, a gorffen 31 Mawrth, 2018) y flwyddyn ariannol bresennol

Os gwelir cysondeb yn y cyfradd gwariant yn ystod y 3 mis nesaf, bydd balans y Cyfrif Cyfredol Banc Lloyds yn gostwng o £51,226.82 (llai £12,773.50 llai £1,133 TAW = **£37,320.32**)

CYFRIFON ERAILL YM MEDDIANT Y CYNGOR TREF

Bond Banc Lloyds £78,000

Llog a ddisgwylir dan law Bond Banc Lloyds 23.01.2018 £702

Banc Lloyds Cyfrif Busnes £883

CYFANSWM: £116,855.32 c/d 1.04.18 i gynnwys £601 (ar gyfer Cae Maesyderi)

TAW a dalwyd 2017-18 (gan gynnwys yr hyn a amcangyfrir) £4,531.42 i'w adalu i gronfa'r Cyngor Tref.

CYMHARIAETH Â'R FLWYDDYN FLAENOROL

c/d 1/04/2107 £132,443 sy'n golygu gwarged o (£15,587) wrth gymharu â'r flwyddyn cynt. Gallai hyn wedi codi oherwydd y gost dyfrhau 2016 sef £4,200 a chyfanswm y gost Arddangosfeydd Blodau 2017 (oddeutu £10,000)

3.6 ELUSENNAU: SWM PRIODOL O DAN ADRAN 137 (3) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Mae Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn caniatáu i gyngor tref neu gymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137 o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i gynghorau cymuned wario at ddibenion elusennol penodol ac, yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 yw £7.86 am bob etholwr. Gan fod 2,293 o bobl ar y rhestr etholiadol Llanbedr Pont Steffan (gwybodaeth sy'n deillio o ffigurau a ddyfynnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion @ 1/03/2012)), yna gellir gwario £18,022.98 ar elusennau gan y Cyngor Tref.

Gwnaethpwyd cyfraniadau hael yn ystod y blynyddoedd diwethaf sef £15,000 ar gyfer y Pwll Nofio Llanbedr Pont Steffan, £20,000 Prosiect Neuadd Fictoria ac yn fwy diweddar £5,000 ar gyfer y Ganolfan Deuluol Llanbedr Pont Steffan. Taith Diogel yn y Gymuned CSC £8,000 + £6,200 (2016 + 2017); Goleuadau Nadolig 2016 £6,000. Cyfarfuwyd â'r gost yn aml o'r arian oedd wrth gefn. Y mae Adrannau eraill o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi caniatáu'r Cyngor Tref i ymwneud â'r grantiau hyn yn ychwanegol at y Lwfans A137. Cyfeiriwch at **Atodiad 2 Taflen 1** am ddadansoddiad o'r rhoddion a wnaed gan y CT cyn belled ym 2017-18. Mabwysiadwyd fformiwla gan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan.

3.7 COSTAU PARHAUS / COSTAU DYFODOL

3.7.1 LLWYBRAU: Ni dderbyniwyd grant gan Gyngor Sir Ceredigion i gynnal a chadw llwybrau cerdded ers nifer o flynyddoedd. (£1,330 gwariwyd 2017-18). Y mae'r Cyngor Tref ynghlwm â'r Prosiect, *Croeso i Gerddwyr*; gallai costau ychwanegol godi.

3.7.2 PARC YR ORSEDD: Codwyd ffens newydd £5,343 (heb TAW) yng Ngorffennaf 2014.

Adroddodd y Cyngh. Chris Thomas yn y cyfarfod Cyllid blaenorol y gallai ffens newydd a gwaith cysylltiedig o fewn y parc gyrraedd £5,500. Ymgwymerwyd ag Archwiliad Parc gan RoSPA am ffi o £66.50 (heb TAW) a gwnaethpwyd argymhellion, sy'n derbyn sylw. Tâl y torrwr glaswellt o fis Ebrill i fis Medi yn gynhwysol, edrych am arwyddion fandaliaeth a chasglu sbwriel yn rheolaidd oedd £1,150. Cyflogir y torrwr-gwair presennol hefyd i gasglu sbwriel yn ystod misoedd Hydref i Fawrth (gan gynnwys y ddau fis) ddwywaith yr wythnos am ffi o £46.66 / mis (leinyddion bin i'w talu gan y Cyngor Tref). Tociwyd coed gan Wasanaethau Coed Llambod o fewn y parc am ffi o £240. Diddymwyd y Castell - £1,100.

Bydd costau pellach yn gysylltiedig â'r parc pan brynir cyfarpar chwarae ychwanegol a phan yr ymwneir â gwelliannau.

- 3.7.3 LLEOLIAD CYFARFODYDD:** Cynhaliwyd Cyfarfodydd misol y Cyngor y Dref yn Neuadd Eglwys San Pedr (£ 9.50 yr awr), ers adleoli o Neuadd y Dref, 8 mlynedd yn ôl. Cynhaliwyd cyfarfodydd bellach yn Festri Capel Shiloh (£8.50 yr awr). Gellid ystyried lleoliadau eraill yn y dyfodol.
- 3.7.4 HYFFORDDIANT AR GYFER CLERCOD A CHYNGHORWYR:** Y mae Llywodraeth Cymru o blaid hyfforddiant ar gyfer Cyngorwyr a Chlercod. Y mae rhai aelodau'r Cyngor Tref wedi mynychu hyfforddiant dan law Un Llais Cymru ac y mae'r Clerc dilyn cwrs ar-lein sef y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd TYGE.
- 3.7.5 COSTAU TEITHIO/TREULIAU** (yr ad-daliad teithio ar hyn o bryd yw 45c y filltir ar gyfer Cyngorwyr yn unig). Gall gyngorwyr dderbyn ad-daliad parthed treuliau megis argraffu a llungopio. Trafodwyd cyfraniadau aelodau at weithgareddau penodol. Gall Cyngorwyr Tref o bosibl dderbyn Lwfans yn y dyfodol.
- 3.7.6 DWYIEITHRWYDD:** Byddai costau ychwanegol yn codi, petai'r Cyngor Tref yn dymuno cynyddu'r ddarpariaeth yr Iaith Gymraeg. Y mae'r Clerc yn cael ei chyflogi am 12 awr y mis i weithredu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor Tref ers ei sefydlu ym 2007. Cyflwynwyd Cyfieithydd ar y Pryd yn ystod Cyfarfodydd Cyngor Tref Misol ym Mehefin 2015 am dâl o £35.00 yr awr (sydd heb fod wedi'i adolygu ers hynny). Cyflogir cyfieithydd ar y pryd yng Ngwasanaeth Urddo'r Maer. Cymeradwyodd y Cyngor Tref y Fenter Shwmae! Shwmae! a Ras yr Iaith ac ar hyn o bryd mae'n gweithio mewn partneriaeth â Chered ac Ysgol Bro Pedr i drefnu Gorymdaith a Gig Gŵyl Ddewi.
- 3.7.7 Cae Maesyderi:** Gellid adolygu'r gyllideb flynyddol bresennol o £1,500.
- 3.7.8 GOLEUADAU STRYD:** Diffoddir nifer o oleuadau stryd o 12 hanner nos i 05:00. Y Cyngor Tref sy'n talu am y trydan sy'n gysylltiedig â'r Goleuadau Nadolig a'r Gofeb Ryfel. Gellir ceisio darparwyr eraill i'r presennol.
- 3.7.9 LWFANS Y MAER**
Penderfynwyd ei gynyddu 1.5% yn flynyddol yn ystod y Cyfarfod Cyllideb Ionawr 2010. (£3,049.50- 2017-18)
- 3.7.10 COSTAU RHEDEG SWYDDFA**
- Y mae gwario'n ofalus ar bapur-copi, inc ac amlenni wedi lleihau costau. Nid yw llythyron, y gellir eu cyflwyno â llaw, fel arfer yn cael eu postio. Anfonir negeseuon e-bost at y rhai sy'n meddu ar gyfleusterau electronig, gan osgoi y gost o argraffu a dosbarthu dogfennau. (Ond cost ychwanegol i'r derbynnydd petai ef/hi yn dewis argraffu'r ddogfen)
Dosbarthir copiau clawr caled ar gyfer aelodau sydd eu hangen a'r Llyfrgell.
 - Band Eang / Ffôn fel arfer oddeutu. £138 y chwarter (heb TAW).
 - System Gyfrifiadurol: prynwyd desgiadur ac argraffydd (inc du yn unig, heb fod yn un lliw) yn ystod Mawrth 2016 £784 (gan gynnwys TAW)
- 3.7.11 CYFLOG Y CLERC:** Penderfynwyd yn ystod y Cyfarfod Cyllideb mis Ionawr 2010 y byddai'r Clerc yn derbyn ychwanegiad blynyddol ym mis Mai. Y cyflog presennol yw (12 awr yr wythnos + 12 y mis i weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg), sy'n cyfateb, yn ystod 2016-2017, i

£9,099.36 (net) £1,101.62 (Treth a YG Gweithiwr & Chyflogwr y flwyddyn, a delir i Gyllid a Thollau EM yn Amser lawn).

Rheolydd Pensiynau: ni wneir cyfraniadau pensiwn ar hyn o bryd gan y Cyflogwr a'r Gweithiwr ond efallai bydd angen gwneud hynny'n ystod y Flwyddyn Ariannol 2018-19.

3.7.12 Hysbysfwrdd Cyngor y Dref: Cafodd ei thrwsio, yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14; Pris: £578 (heb gynnwys TAW). Ymgwymerwyd â gwelliannau'n ddiweddar £148.

3.7.13 Cadwyn y Maer: mae angen trwsio'r gadwyn. Y mae cynlluniau ar y gweill i brisio'r holl regalia dinesig gan gynnwys y 2 fedal Tseiniaidd ac y mae'n fwriad gan y Cyngor Tref i brynu cist er mwyn eu storio'n ddiogel.

3.7.14 Gwefan y Cyngor Tref: derbyniwyd grant o £500 yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14 i ymwneud â gwelliannau parthed safle ar y we y Cyngor Tref. Amlygwyd yr angen o sicrhau bod yr wybodaeth ar y wefan yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Y gost lletya blynyddol, HCI-Data Adnewyddu lampeter-tc.gov.uk & gosod mewn lle ebost ar gyfer holl gynghorwyr oedd £765 (heb gynnwys TAW) cyn belled ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

3.7.15 TWRISTIAETH: Gwelwyd presenoldeb y Cyngor Tref ar faes yr Ŵyl Fwyd Llanbedr PS, yn ystod y 6 blynedd diwethaf.

3.7.16 YSWIRIANT Y CYNGOR TREF (Zurich Municipal-Bwrdeistrefol): Y mae'r premiwm blynyddol tua £1,500 ac yn cynnwys y Cyfrifiadur, Addurniadau Nadolig, Teyrndlysau Dinesig, Clogau Dinesig, 4 Cynhwysydd Plannu a'r Cewyll fforch. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus: £10,000,000. Gwarant Ffyddlondeb £250,000. Gallai'r gost gynnyddu petai trefniadau yswiriant pellach yn cael eu cyflwyno.

3.7.17 LLOCHESI BWS: Glanheir y 4 cysgodfan bws bob 2 fis am gost o £10/lloches-bws. Crybwyllwyd yn ystod y cyfarfod cyllid cynt y gallai'r Cyngor Tref o bosibl godi cysgodfan bws ger y Banc Nat West ar y Stryd Fawr.

3.7.18 ARCHWILIAD ARIANNOL Y CYNGOR TREF 2016-17: Archwiliad Allanol £231 (heb gynnwys TAW) – Swyddfa Grant Thornton, Swyddfa Archwilio Cymru. Archwiliad Mewnol: Mr D Marshall £150.

3.8 PROSIECTAU NEWYDD

Gallai costau ychwanegol godi'n ystod y flwyddyn nesaf:

3.8.1 Gwnaeth y Cyngor Tref ymholiadau ynghylch mabwysiadu o bosibl yr Ardd Goffa Rhyfel Llanbedr Pont Steffan. Y mae costau blynyddol parhaus presennol yn gysylltiedig â chynnal a chadw a darparu planhigion (a ddyfynnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion) oddeutu £4,800. (gellid gorgyffwrdd â'r gost sy'n gysylltiedig â'r Arddangosfeydd Blodau). Gallai costau ychwanegol godi i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, yn ystod 2018.

3.8.2 Arddangosfeydd Blodau dros fisoedd yr haf: y Cyngor Tref oedd wedi trefnu'r arddangosfeydd blodau o fewn y dref dros fisoedd yr haf 2017. Cyfarfuwyd â'r gost dyfrhau Haf 2016 yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18. (£4,200 + TAW). Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi talu'r costau dyfrio £4,200 a

£3,400 ar gyfer y planhigion am yr haf 2017; disgwylir y tâl llafur sef £2,917.35. Cynhwysir 3 cynhwysydd planhigion ar Fynedfeydd i'r Dref ond nid y cynhwysydd planhigion a leolir ym Mharc-yr-Orsedd.

- 3.8.3 Ardal Chwarae Maesyfelin:** gallai Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr Ardal Chwarae yn y dyfodol. Mae ffi cyfreithwr tua £800.
- 3.8.4 Arddangosfeydd Goleuadau Nadolig yn y Dref:** trwsiodd ym mis Awst 2017 £1,044. Gellid prynu arwyddion yn datgan y geiriau *Nadolig Llawen* yn ystod y yn y dyfodol.
- 3.8.5 Y Ffynnon, Sgwâr Harford:** mae'r Cyngor Tref mewn trafodaeth â Ch S Ceredigion ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo'r Ffynnon a'r ardal Sgwâr Harford i'r Cyngor Tref.
- 3.8.6 Parc yr Orsedd:** mae trefniadau ar y gweill i gyflwyno cyfarpar chwarae newydd o fewn y Parc.
- 3.8.7 Penderfynwyd yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor Tref** i gefnogi Cais Grant yr Ymddiriedolaeth Datblygu Transition Llambod (bydd yn rhaid i'r sefydliad godi 20% x £160,000).
- 3.8.8 Gwaith Adnewyddu - Mynediad Isaf Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan** £1,210.

4.0 CASGLIAD

PENNU'R PRAESEPT (2018-19)

Y mae nifer o opsiynau parthed pennu'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r holl gyfrifon yn cynnwys TAW - 20% o fis Ionawr 2011 ymlaen.

CHWYDDIANT: Y mae cyfradd chwyddiant yn ddangosydd economaidd pwysig a dyma'r raddfa sy'n mesur sut y mae prisiau'n codi. Y mae chwyddiant yn gynydd mewn pris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Amcangyfrwyd graddfa chwyddiant o 3% ar holl gyfrifon yn ymwneud â'r gyllideb y flwyddyn nesaf.

Mae'r opsiynau a ganlyn:

OPSIWN 1

Dim newid yn lefel y Praesept hy mae'n parhau ar £ 41,000

Costau rhedeg arferol (heb gynnwys TAW) yn seiliedig ar wariant 2017-18 £51,094

Lwfans ar gyfer chwyddiant @ 3% £1,533

CYFANSWM £52,627

Gellir cwrdd â chostau ychwanegol (£11,627) o'r cronfeydd wrth gefn sef £116,855.32,

Y mae cwrdd â'r gost arddangosfeydd blodau oddeutu £10,000 y flwyddyn + grantiau penodol ee Llwybrau Diogel yn y Gymuned yn aml yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor Tref dynnu allan o'i gronfeydd wrth gefn. Pe bai'r praesept yn aros ar yr un lefel a bod y gwariant yn parhau ar y gyfradd uchod, byddai'r holl gronfeydd wrth gefn wedi'u gwario'n ystod y degawd nesaf.

OPSIWN 2

Y Praesept yn cael ei ostwng yn y flwyddyn ariannol nesaf, er enghraifft i £39,000. Telir costau ychwanegol o'r arian wrth gefn.

OPSIWN 3

Y Praesept i gynyddu petai'r Cyngor y Dref yn rhagweld gwariant uchel yn y dyfodol.

5.0 ARGYMHELLION

O ganlyniad i'r ymchwiliad, argymhellir aelodau'r Cyngor Tref i roi ystyriaeth ddyledus i'r canlynol:

- 5.1** Gellid Dewis Opsiwn 1, hy £ 41,000 fydd y swm a godir dan law'r Praesept ac yn aros yr un fath. Croesawir cyllideb di-gyfnewid gan drethdalwyr. Mae'r cyngor sir a'r heddlu'n ystyried cynnydd yn eu cyfran o'r dreth gyngor. Gellir cwrdd â chyfran uchel o'r costau bob-dydd o fewn y gyllideb hon. Gellir cwrdd â chostau pellach o'r cronfeydd wrth gefn.
- 5.2** Dylid ystyried Opsiwn 2. Croesawir gostyngiad yn lefel y praesept gan nifer o drethdalwyr, yn y cyfnod hwn o galedi. Byddai gostyngiad o £1,000 yn golygu arbediad blynyddol o £1 ar gyfer Trethdalwr y Cyngor Band D.
- 5.3** Gellir clustnodi sylw i Opsiwn 3 sef cynnydd yn y Praesept. Gwaed gostyngiad oddeutu £2,000 yn ystod y 3 blynedd ariannol ddiwethaf o gymharu â'r 8 mlynedd cynt sef swm cyson o £ 43,220 .
- 5.4** Dylid clustnodi grym sylw i'r gronfa wrth gefn o bron i £116,855. Mae'r archwiliwr allanol, Grant Thornton, wedi holi paham fod y cronfeydd wrth gefn yn uchel o'u cymharu â'r Praesept. Mae Asedau Sefydlog y Cyngor Tref yn cynnwys eitemau, sydd angen cynnal a chadw a / neu ailosod rheolaidd sylweddol. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi awgrymu gosod Cronfa Ddiddymu ar waith i gwrdd â'r costau hyn.
- 5.5** Dioddefa Llywodraeth Leol gostyngiad gwariant sylweddol. Bydd toriadau dwfn mewn buddsoddiad cyfalaf am flynyddoedd i ddod. Bydd trosglwyddo cyfrifoldeb am rai prosiectau o GS Ceredigion i Gyngor y Dref, er enghraifft, Gerddi Coffa'r Rhyfel, y Ffynnon, Sgwâr Harford yn golygu costau ychwanegol i'r Cyngor Tref yn ogystal â chyflwyno offer chwarae newydd ym Mharc-y-Orsedd a chymryd cyfrifoldeb am Ardal Chwarae Maesyfelin.
- 5.6** Dylai'r arian wrth gefn barhau i'w fuddsoddi mewn cyfrifon, sy'n cynnig y gyfradd llog orau. Mae hyn wedi golygu cynllunio gofalus yn y gorffennol wrth i Gyfradd-Sylfaen Banc Lloegr ostwng yn aruthrol. Mae rhai problemau wedi codi pan oedd angen arian di-rybudd a chronfeydd wedi eu cloi am amser penodedig. Cedwir y Praesept ar hyn o bryd yng nghrif bob dydd Banc Lloyds (0.01% llog blynyddol) a gellir defnyddio'r arian yn ôl yr angen. Y mae cyfrifon y Cyngor Tref Banc Barclays, Santander a Chymdeithas Adeiladu Abertawe eisoes wedi'u cau.
- 5.7** Dylid adolygu'r hyn a roddir i elusennau lleol yn rheolaidd.
- 5.8** **Opsiwn 1 a ffafriwyd gan y Swyddog Ariannol hy dim newid yn lefel y Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19, oherwydd:**
- Yr hinsawdd economaidd bresennol ac yr ansicrwydd oherwydd Brexit;
 - Haelioni Praeseptau gorffennol, oherwydd newidiadau yn y gost taliad Camerau TCC &
 - Yr arian wrth gefn ym meddiant y Cyngor Tref ar hyn o bryd.